CA2 – Cynllun Gwers Trychfilod Bychain

AMCAN

Deall a pharchu pob creadur

NODAU

Deall beth yw trychfil
Deall pa mor bwysig yw trychfilod
Gallu adnabod nifer o drychfilod cyffredin
Gallu deall cylch bywyd nifer o drychfilod

CYSYLLTIADAU'R CWRICWLWM

Cymraeg EN1 Siarad a Gwrando
EN3 Ysgrifennu
Dinasyddiaeth 5a Derbyn cyfrifoldeb
Gwyddoniaeth 2 Prosesau Bywyd a Phethau Byw

OFFER

Allweddi adnabod
Potiau casglu
Rhwydi ysgubo
Hambyrddau curo

PWYNTIAU DIOGELWCH

Gwnewch yn siwr nad yw'r grŵp wedi cynhyrfu gormod cyn cychwyn.
Tynnwch sylw at beryglon rhedeg, llystyfiant, tyllau cwningod etc.

GWEITHGAREDDAU YMLAEN LLAW

Trafodwch beth yw infertebrata. Mae'n greadur heb asgwrn cefn ac felly mae'n hyblyg iawn. Faint o infertebrata mae'r plant yn gallu eu henwi. Cofnodwch hwy ar eich bwrdd gwyn. Nawr ceisiwch ganfod sut mae'r plant yn teimlo tuag atynt. A ydynt yn codi ofn arnynt, yn fudr etc? Eglurwch bod rhai trychfilod yn gallu eu brifo. Er enghraifft, mae gwenyn a chacwn

yn gallu pigo ac mae gan rai lindys flew pigog sy'n gallu rhoi llid ar ein croen, ond mae trychfilod fel malwod, pryfed cop Prydain a phryfed clustiog yn ddiniwed. Tynnwch sylw at y ffaith mai'r unig reswm maent yn brifo yw am eu bod yn ceisio eu gwarchod eu hunain.

Ceisiwch gael y plant i ddychmygu sut beth yw bod yn bryf yn yr ystafell ddosbarth, neu'n bryf copyn yn y gornel. Beth mae'n ei wneud? Sut mae'n teimlo? Beth sy'n digwydd pan mae person yn dod ato ac yn ceisio ei ddal? Nawr sut mae'n teimlo?

Pam fod creaduriaid yn dod i mewn i'n cartrefi a'n hystafelloedd dosbarth? Er mwyn chwilio am fwyd a chynhesrwydd neu am eu bod wedi cael eu geni yno? Eglurwch beth yw cynefin (cartref). Gall fod yn fawr (coetir) neu'n fach (deilen). Mae gan bobl gynefinoedd hefyd (neu gartref neu ystafell wely). Beth sydd ei angen mewn cynefin? Bwyd, cysgod, cwmni / cymar. Rhowch gerdyn bywyd gwyllt i'r plant a gofynnwch iddynt feddwl am gynefin pob anifail a beth mae'r cynefin hwnnw'n ei gynnig iddynt.

Y PRIF WEITHGARWCH

Dangoswch yr offer fyddant yn ei ddefnyddio i'r plant a dywedwch wrthynt sut ddylent ddefnyddio pob eitem. Mae'n bwysig nad ydynt yn colli'r creaduriaid wedi iddynt eu dal, ac yn bwysicach fyth, ni ddylent fod angen cyffwrdd ag unrhyw rai o'r creaduriaid gyda'u dwylo.

Ewch i'ch safle bywyd gwyllt a thynnwch sylw at gynefinoedd da i drychfilod, fel o dan gerrig neu foncyffion, mewn glaswellt tal neu ar goed a threuliwch ryw faint o amser yn chwilio am amrywiaeth eang o greaduriaid. Ceisiwch ganfod enw pob creadur gan ddefnyddio'r allweddi adnabod a meddyliwch am unrhyw nodweddion arbennig sydd ganddynt.

- A oes ganddynt gragen galed i'w gwarchod?
- A ydynt yn llysnafeddog i'w helpu i ddringo i fyny waliau?
- A oes ganddynt golyn (yn pigo) rhag ofn i rywun ymosod arnynt?
- A oes ganddynt adennydd er mwyn gallu hedfan?

Cofiwch roi eich creaduriaid yn ôl yn eu lle yn ofalus. Lle bo modd, defnyddiwch yr un planhigyn neu garreg, oherwydd bydd hyn yn agos at ei fwyd. Cofiwch roi'r holl gerrig yn ôl yn y fan ble cawsoch hyd iddynt.

GWEITHGAREDDAU DILYNOL

Mae trychfilod yn rhan hanfodol o'r gadwyn fwyd. Mae rhai trychfilod yn byw ar ddeunydd marw, gan helpu i'w droi'n gompost defnyddiol. Mae rhai'n gwneud llwybrau mewn pridd, gan ei atal rhag cywasgu gormod. Mae trychfilod fel buchod coch cota yn bwyta affidau yn yr ardd.

Defnyddiwch y cardiau bywyd gwyllt i wneud gwe fwyd gyda'r plant. Sut maent yn cysylltu â'i gilydd i gyd? Beth fyddai'n digwydd pe bai'r holl infertebrata'n cael eu lladd? Pa effaith fyddai hyn yn ei gael ar fywyd gwyllt arall?

Mae pob plentyn yn mynd â darn o linyn allan yn ôl i'r safle bywyd gwyllt ac yn gorwedd ar y llawr yn ei ymyl. Dychmygwch eich bod yn un o'r trychfilod a dilynwch ei siwrnai ar hyd y llinyn. Beth sy'n digwydd pan mae'n dod ar draws rhwystr fel carreg neu bwll a beth sy'n digwydd pan mae'n cyfarfod trychfil arall? Ysgrifennwch stori neu gerdd am y siwrnai.

GEIRFA

Addasu, cymuned, cadwyn fwyd, gwe fwyd, cynefin, ysglyfaethwr, ysglyfaeth.